GRT 07
Ymgynghoriad ar ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
Consultation on the provision of sites for Gypsy, Roma and Travellers
Ymateb gan: Cyngor Sir Ynys Môn
Response from: Isle of Anglesey County Council

https://busnes.senedd.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=460&RPID=1531978594&cp=yes

https://business.senedd.wales/mgConsultationDisplay.aspx?id=460&RPID=1531978594&cp=yes

- A yw awdurdodau lleol Cymru a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn llwyddo i gydweithio'n llwyddiannus i:
    - nodi safleoedd preswyl a thramwy cynaliadwy, a
    - thrafod anghenion llety y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr?

Credwn fod gennym berthynas dda gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac rydym yn gweithio gyda'n gilydd i nodi safleoedd preswyl a thramwy cynaliadwy yn ogystal â thrafod anghenion llety.

Mae'r Awdurdod Lleol yn wynebu nifer o heriau wrth ddarparu safleoedd preswyl a thramwy, sy'n ei gwneud hi'n anodd rheoli disgwyliadau pobl sy'n dymuno defnyddio safleoedd preswyl a thramwy a'r gymuned gyfan.

- Bwriad Asesiadau Llety y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yw asesu anghenion llety y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Yn eich barn chi, a yw awdurdodau lleol Cymru yn eu cyfanrwydd yn gweithredu, monitro ac adolygu Asesiadau Llety y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn effeithiol?

Rydym yn cwblhau Asesiadau yn unol â'r gofyniad ond mae'r amserlen o ran sicrhau cymeradwyaeth drwy'r broses wleidyddol yn gallu'i gwneud hi'n anodd ymateb i ofynion LlC.

- A yw'r fframwaith statudol a pholisi presennol yn sicrhau bod digon o safleoedd preswyl a thramwy ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n briodol yn ddiwylliannol ledled Cymru ac o fewn awdurdodau lleol unigol?

Ydi, rydym yn credu bod y fframwaith presennol yn cynnig digon o opsiynau llety i gwrdd ag anghenion gwahanol grwpiau. Unwaith eto, mae'r heriau a wynebir gan Awdurdodau Lleol yn gallu'i gwneud hi'n anodd darparu safleoedd sy'n cwrdd â gofynion cymunedau Sipsiwn, Roma, Teithwyr a'r gymuned gyfan.

- Beth yw'r prif heriau i awdurdodau lleol Cymru a Llywodraeth Cymru wrth ddarparu safleoedd llety addas a digonol ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr?

Fel y nodwyd uchod mae Awdurdodau Lleol yn wynebu nifer o heriau, yn cynnwys prinder adnoddau i ddelio gyda'r gwaith paratoadol, delio gyda gwersylloedd, cynnal a gweithredu Asesiadau a rheoli disgwyliadau gwahanol gynulleidfaoedd.

- A ydych yn rhagweld pan/os daw Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd Llywodraeth y DU i rym y bydd:
    - heriau penodol i'w goresgyn, a/neu
    - mewn rhai lleoliadau yng Nghymru, yn ymwneud â safleoedd cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr?

Bydd yn Bil yn trin gwersylloedd diawdurdod fel achos o dresmasu ac mae'n bosib y caiff cerbydau eu cymryd a'u cadw o ganlyniad. Fe all hyn wneud unigolion / teuluoedd yn ddigartref a bydd angen cymorth arnynt gan yr Awdurdod Lleol. Credwn mai'r peth gorau fyddai cael gwasanaethau i gydweithio er mwyn symud gwersylloedd i leoliadau addas gyda gwasanaethau / darpariaethau ar y safle.

- A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol am ddarparu safleoedd llety yng Nghymru ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr?

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw dydd Gwener 20 Mai 2022.